Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach

## Datganiad o Ddiddordeb – Canllaw Sut i Gwblhau



# Cynnwys

Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan ..........................................................
Tudalen Ceisiadau a Hawliadau..........................................................
Datganiad Diddordeb - Grant Cynhyrchu...........................................
Datgan Diddordeb Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ...............................
Hysbysiad Preifatrwydd ........................................................................
Eitemau Buddsoliadol ...........................................................................
Tudalen Gyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb...................
Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau...........................
Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno .............................................................
Beth sydd yn digwydd Nesaf ...............................................................
Cysylltiadau..........................................................................................

© Hawlfraint y Goron 2021 ISBN: 978-1-80082-780-6

## Cofrestu ar gyfer RPW Ar-lein

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, bydd angen ichi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. Darllenwch y canllaw ar sut i gofrestru i gael rhagor o fanylion. Gallwch newid y rhan fwyaf o fanylion eich busnes ar-lein. Ond os ydych am gofnodi newidiadau mawr, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ofyn ichi am ragor o fanylion. Ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am ragor o wybodaeth.

## Y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach - Datgan Diddordeb - Canllaw Sut i Gwblhau

Bydd y canllaw hwn yn rhoi cyfarwyddiadau manwl, cam wrth gam, ichi ynghylch sut i lenwi Ffurflen Datgan Diddordeb y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r canllaw yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Ar ôl ei Gyflwyno'n Llwyddiannus


Bydd crynodeb o'ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach yn cael ei ychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru". Darllenwch y crynodeb yn ofalus. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges gan esbonio'ch pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y bo modd ar ôl dod o hyd i wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

# Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein


## Hafan

Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Enw Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein.



Er mwyn agor ffurflen Datgan Diddordeb y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach sgroliwch i lawr y dudalen a'i dewis o'r fan hon.




Neu gallwch glicio ar y tab '**Ffurflenni**' ar dudalen hafan RPW Ar-lein, fel isod.





Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen 'Ffurflenni'.

I newid yr iaith ar unrhyw adeg, cliciwch y botwm **Saesneg** yng nghornel dde uchaf y bar Gwybodaeth RPW Ar-lein. Bydd hyn yn newid iaith ffurflen Datgan Diddordeb y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach.

## Tudalen Ceisiadau a Hawliadau


Ar ôl ichi ddewis y tab 'Ffurflenni', fe welwch y ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.




Sgroliwch y lawr y dudalen a chlicio ar ffurflen Datgan Diddordeb y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach


## Y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach – Dechrau Arni

Ar ôl darllen Llyfryn Rheolau Cyffredinol y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach yn Grantiau a Thaliadau Gwledig , cliciwch y botwm '**Dechrau'** i ddechrau Datgan Diddordeb.




## Datgan Diddordeb yn y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach

Dyma’r dudalen gyflwyno sy’n rhoi gwybodaeth am y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach. I weld rhagor o fanylion, darllenwch Lyfryn Rheolau Cyffredinol y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach yn Grantiau a Thaliadau Gwledig.





Ar ôl ichi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




# Hysbysiad Preifatrwydd


Rhaid ichi ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.




Ar ôl ichi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

# Cwestiynau Pwy sy'n Gymwys

Mae'n rhaid ichi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.




Os nad ydych yn ymgeisio ar ran Awdurdod Porthladd neu Awdurdod Lleol, byddwch yn cael neges i esbonio nad ydych yn gymwys ac na chewch chi fynd yn eich blaen.




## Eitemau Buddsoddi'r Prosiect

Cyn dewis eich eitemau seilwaith, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen Atodiad A y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach – ar ddiwedd Llyfryn Rheolau'r Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach yn Grantiau a Thaliadau Gwledig. Yno, fe welwch fanylebau, cost a sgôr pob eitem.

Y grant mwyaf y gallwch ei gael yw **£100,000.**

Bydd cap o £100,000 ar y grant a roddir, waeth faint yn fwy na hynny fydd wedi'i nodi yn y Datganiad o Ddiddordeb.


Rydym yn eich cynghori i gael dyfynbrisiau ar gyfer pob eitem y byddwch yn ei nodi yn eich Datganiad o Ddiddordeb. Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, ni fydd y grant a roddir i chi yn uwch na'r swm y byddwch wedi'i nodi ar eich Datganiad o Ddiddordeb neu a gafodd ei gapio i £100,000.

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb, chewch chi ddim newid yr eitemau yr ydych wedi'u dewis.

Cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu' isod i weld rhestr o'r holl eitemau sydd ar gael.



Dewiswch eitem o’r gwymplen.



Ar y sgrin nesaf, nodwch Amcangyfrif o Gost yr eitem a ddewiswyd.



Cliciwch Cadw a Dychwelyd

Rhaid ichi ddewis o leiaf un eitem seilwaith o’r rhestr o eitemau Amgylcheddol ac un eitem seilwaith o’r rhestr o eitemau Diogelwch i fod yn gymwys.


Os na fyddwch wedi dewis un eitem o’r ddwy restr, fe gewch neges rybudd ac ni fyddwch yn cael mynd yn eich blaen.



I ychwanegu eitem, cliciwch y botwm Ychwanegu eto.

Wrth ichi ychwanegu eitemau, bydd y cyfanswm yn tyfu i ddangos cyfanswm cost yr eitemau rydych wedi'u dewis.

Os ydych yn ychwanegu, dileu neu'n newid eitem, cliciwch ar y botwm **Safio** i ddiweddaru'r dudalen a gwneud yn siŵr ei bod yn dangos y cyfanswm cywir.




Ar ôl ichi ddewis eich holl eitemau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

Rydym yn eich cynghori i gael tri dyfynbris ar gyfer pob eitem buddsoddi sydd ar eich Datganiad o Ddiddordeb. Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, ni fydd y grant a roddir i chi yn uwch na'r swm y byddwch wedi'i nodi ar eich Datganiad o Ddiddordeb neu a gafodd ei gapio i £100,000.

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb, chewch chi ddim newid yr eitemau yr ydych wedi'u dewis.

## Tudalen Gyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb


Mae hon yn rhoi crynodeb o'r eitemau yr ydych wedi'u dewis ac yn eich hysbysu am unrhyw wallau neu negeseuon gwybodaeth ar eich cais.




Unwaith y byddwch wedi gwirio'r crynodeb ac wedi cywiro unrhyw wallau cliciwch ar y botwm **Nesaf**.


## Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae'n rhaid ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a **thicio'r** blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen a'ch bod yn cytuno â nhw.








Ar ôl ichi ddarllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau a chytuno â nhw, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




## Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno

I gyflwyno’ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach, cliciwch ar y botwm **Cyflwyno**.




Ar ôl ei gyflwyno, byddwn yn anfon cadarnhad atoch a gallwch ei argraffu ar gyfer eich ffeiliau.




Unwaith y bydd y Datganiad o Ddiddordeb wedi’i gyflwyno, ni chewch newid yr eitemau rydych wedi’u dewis.

## Beth sy’n digwydd nesaf?

Mae’r broses ymgeisio wedi’i rhannu’n dri cham. Yn gyntaf, Datgan Diddordeb drwy RPW Ar-lein, sydd ar agor am 6 wythnos.  Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, y cam nesaf yw cyflwyno cais llawn drwy RPW Ar-lein ac yna byddwn yn gwerthuso’ch cynlluniau a’ch dogfennau ategol.

Byddwch yn cael gwybod a ydych wedi cael eich dewis trwy lythyr i’ch cyfrif RPW Ar-lein YN UNIG.

Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, rhaid ichi naill ai dderbyn neu wrthod y penderfyniad a dychwelyd Atodiad y Cais fydd wedi’i gynnwys gyda’r llythyr dewis i Lywodraeth Cymru drwy’ch cyfrif RPW Ar-lein erbyn y dyddiad fydd wedi’i nodi ar y llythyr.

Os byddwch yn derbyn, bydd angen i chi roi gwybodaeth i ni am eich busnes a’ch cynigion buddsoddi. Fe welwch gyngor ar beth sydd ei angen a fformat y dogfennau hyn yn Grantiau a Thaliadau Gwledig. Cadwch at y canllawiau oherwydd gallai peidio â gwneud arafu’r broses werthuso.

# Cysylltu

## RPW Ar-lein

Gallwch fynd at wasanaethau RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth yn www.gateway.gov.uk, neu ar ôl ichi gofrestru ar gyfer gwasanaethau RPW Ar-lein, ewch i RPWArlein. Os nad ydych wedi cofrestru eto gydag RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar sut i gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

## Ymholiadau - y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW .

Gallwch ofyn cwestiwn unrhyw bryd ar RPW Ar-lein unrhyw bryd.

## Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb eich gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Bydd cyfle ichi gofrestru arni am y daflen e-newyddion, Gwlad